Polisi Casgliadau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref a Gweithrediadau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Dod o hyd i ni ar

ailgylchu dros Sir y Fflint
recycle for Flintshire

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

Trosolwg

Polisi	Polisi Casgliadau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref a Gweithrediadau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
Portffolio	Gwasanaethau Stryd a Chludiant
Maes Gwasanaeth	Darpariaeth Gwasanaeth / Strategaeth Wastraff
Dogfennau Perthnasol	Polisi Trwydded Cerbydau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o'r Newidiadau
1	2017	Polisi Casglu Gwastraff y Cartref a Gweithrediadau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref
2	Tachwedd 2024	Diwygiadau i'r polisi yn dilyn newidiadau cymeradwy i'r gwasanaeth a weithredwyd ers 2017.

Approval

Fersiwn	Pwy / Lle	Dyddiad
1	Y Cabinet	2017
2	Y Cabinet	
3		

Cymraeg

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Gweler y dudalen Saesneg ar ein gwefan.
This document is also available in English. See English page on our website.

Os hoffech gopi o'r ddogfen hon mewn fformat arall cysylltwch â
If you would like this document in another format contact:

Jeśli chciał(a)by Pan(i) otrzymać ten dokument w języku polskim, prosimy o kontakt poprzez:

Jeigu jūs pageidaujate šį dokumentą gauti lietuvių kalba, prašome kreiptis:

Dacă doriți acest document în limba română, vă rugăm să contactați:

Ha magyarul szeretné megkapni ezt a dokumentumot, kérjük, vegye fel a kapcsolatot:

您如果想得到這份文件的粵語版本請聯絡

01352 703020

Gwasanaethaucwsmer@siryfflint.gov.uk
customerservices@flintshire.gov.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	4
2.	Deddfwriaeth	4
3.	Cymhwysedd am Gasgliadau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref	5
4.	Mathau ac Amlder Casgliadau Ailgylchu a Gwastraff	5
5.	Cyflwyno Cynwysyddion	6
6.	Diwrnod ac Amser Casglu	8
7.	Paratoi a Chyflwyno Eitemau i'w Hailgylchu	8
8.	Mannau Casglu Ffurfiol	9
9.	Casgliadau ar Ffyrdd Preifat	9
10.	Cyflwyno Gwastraff Ychwanegol Na Ellir Ei Ailgylchu a Chamau Gorfodi	10
11.	Casgliad â Chymorth	11
12.	Casgliad Bin ar Olwynion a Chadi Bwyd a Fethwyd	12
13.	Casgliad Ailgylchu a Fethwyd	12
14.	Casgliad Gwastraff Clinigol/Meddygol y Cartref	12
15.	Casgliad Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol y Cartref	13
16.	Casgliad Gwastraff Swmpus y Cartref	13
17.	Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref	14
18.	Lleoliadau	15
19.	Dyddiau ac Oriau Gweithredol	15
20.	Deunyddiau a Dderbynnir	16
21.	Archebu a Chodi Tâl i Waredu	16
22.	Gwastraff i'w Ailgylchu a Gwastraff Gweddilliol (Na Ellir Ei Ailgylchu)	16
23.	Deunyddiau ac Eitemau Na Dderbynnir	16
24.	Polisi Trwydded Cerbydau	18
25.	Amodau Defnyddio Safle	18
26.	Monitro a Diogelwch Safle	18

1. Cyflwyniad

Ein gweledigaeth yw arwain Sir y Fflint at economi gylchol, defnyddio ein hadnoddau mor effeithlon ag y gallwn, cynhyrchu cyn lleied â phosib o wastraff a chydweithio â'n cymunedau wrth ysgwyddo'r cyfrifoldeb am yr amgylchedd gyda'n gilydd.

Drwy weithredu strategaeth adnoddau a gwastraff effeithiol, ein nod yw diogelu lles pobl heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, hybu'r economi leol, a lleihau ein heffaith ar newid hinsawdd.

Mae'r polisi hwn yn gosod trefniadau casglu a gwaredu eitemau ailgylchu a gwastraff y Cyngor ar gyfer deiliaid tai yn Sir y Fflint a dyletswydd y deiliad tŷ yn unol â deddfwriaeth i sicrhau bod y weledigaeth yn cael ei chyflawni.

2. Deddfwriaeth

2.1. O dan delerau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae Cyngor Sir y Fflint (y "Cyngor") yn cael ei ystyried fel Awdurdod Casglu a Gwaredu Gwastraff, ac fel y cyfryw, mae ganddo ddyletswydd statudol i gasglu deunyddiau i'w hailgylchu a gwastraff cartref o bob eiddo domestig yn y sir. Dan Adran 46(4) o'r Ddeddf, mae gan y Cyngor bwerau penodol i bennu:

- Swm, maint a'r math o gynwysyddion casglu.
- Y man y mae'n rhaid rhoi'r cynwysyddion er mwyn eu casglu a'u gwagio.
- Yr amser y mae'n rhaid cyflwyno cynwysyddion er mwyn eu casglu a'u gwagio.
- Y math o wastraff y gellir neu na ellir ei roi ym mhob cynhwysydd.

2.2. Yn ogystal, mae Adran 51 Deddf Diogelu'r Amgylchedd yn nodi dyletswydd statudol yr awdurdod fel awdurdod gwaredu gwastraff, o ran: -

2.3. Bydd dyletswydd ar bob awdurdod gwaredu gwastraff i drefnu i:

- waredu'r gwastraff rheoledig a gesglir yn ei ardal gan yr awdurdodau casglu gwastraff;
- darparu mannau er mwyn i'r bobl sy'n preswylio yn yr ardal allu rhoi eu deunyddiau i'w hailgylchu a gwastraff y cartref a gwaredu'r gwastraff sy'n cael ei adael yno.

2.4. Diffinnir gwastraff cartref a gwastraff nad yw'n wastraff cartref (gan gynnwys gwastraff adeiladu) yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Rheoliadau Gwastraff a Reolir (Cymru a Lloegr) 2012.

3. Cymhwysedd am Gasgliadau Ailgylchu a Gwastraff y Cartref

3.1. Bydd gan bob aelwyd yn Sir y Fflint, sydd wedi'u cynnwys ar gofrestr Treth y Cyngor, yr hawl i dderbyn gwasanaethau casglu ailgylchu a gwastraff fel y nodir yn y polisi hwn.

3.2. Nid oes gan safleoedd annomestig (busnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus) yr hawl i dderbyn casgliad o dan y polisi hwn ac maent yn destun y Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle fel y nodir yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023.

4. Mathau ac Amlder Casgliadau Ailgylchu a Gwastraff

4.1. Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth casglu ailgylchu wythnosol cynhwysfawr yn cynnig y gwasanaethau canlynol::

Tabl 1: Trefniadau Casglu Ailgylchu

Ailgylchu	Math o gynhwysydd	Maint y cynhwysydd	Amlder
Poteli a jariau gwydr	Bocs glas	40 litr	Bob wythnos
Plastigau cymysg (poteli, tybiau, potiau, hambyrddau), Metelau (caniau tun a ffoil), erosolau a chartonau â chwyr	Sach hesian arian	90 litr	Bob wythnos
Cardfwrdd a phapur (bocsys cardfwrdd, papur, amlenni, pamffledi)	Sach hesian las	70 litr	Bob wythnos
Gwastraff bwyd (bwyd sydd heb ei fwyta, crafion ffrwythau a llysiau, carcasau, bagiau te, plisg wyau, bwyd anifeiliaid anwes, sbarion bwyd)	Cynhwysydd gwyrdd Cadi arian Bagiau leinio	23 litr 7 litr 7 litr	Bob wythnos
Batris domestig	Bag / potyn clir plastig	Heb nodi	Bob wythnos

4.2. Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth y codir tâl amdano ar gyfer casglu gwastraff gardd o gartrefi (gwastraff gwyrdd). Adolygir y tâl drwy adolygiad blynyddol corfforaethol o ffioedd a thaliadau.

Tabl 2: Trefniadau Casglu Gwastraff Gardd

Ailgylchu	Math o gynhwysydd	Maint y cynhwysydd	Amlder
Gwastraff gardd (glaswellt, dail, toriadau gwrychoedd, planhigion)	Bin brown ar olwynion	140 litr	Bob pythefnos (Maw-Tach) a bob mis (Rhag-Chwef)

4.3. Ar gyfer unrhyw eitemau a ystyrir nad oes modd eu hailgylchu, darperir y gwasanaeth canlynol:

Tabl 3: Trefniadau Casglu Gwastraff Gweddilliol

Gwastraff	Math o gynhwysydd	Maint y cynhwysydd	Amlder
Gwastraff gweddilliol (e.e. gwastraff nad oes modd ei ailgylchu, polystyren, gwastraff anifeiliaid, hancesi papur wedi'u defnyddio a chynnyrch hylendid bach)	Bin du ar olwynion	180 litr	Unwaith bob tair wythnos
Cynnyrch Hylendid Amsugnol / Clytiau	Sachau/cynhwysydd oren	40 litr	Bob wythnos

4.4. Gellir mynd â rhai eitemau nad ydynt eto'n cael eu casglu drwy wasanaethau casglu'r Cyngor, megis haenau plastig, pacedi creision a phecynnau bwyd anifeiliaid anwes, i fusnesau, manwerthwyr neu archfarchnadoedd lleol er mwyn eu hailgylchu. Darperir rhagor o wybodaeth am y lleoliadau hyn ar wefan y Cyngor.

5. Cyflwyno Cynwysyddion

5.1. Lle bo'n weithredol bosibl, cynhwysir pob aelwyd yn y gwasanaeth casglu, a bydd eiddo'n derbyn casgliadau cwrtil (ymyl palmant). Fodd bynnag, mewn rhai lleoliadau penodol bydd mannau casglu yn cael eu nodi gan y Cyngor ac mewn rhai lleoliadau (e.e. eiddo teras neu fflatiau) bydd casgliadau lleol yn cael eu darparu o fannau casglu cymunedol neu finiau cymunedol, a ddarperir at ddibenion storio deunyddiau ailgylchu a gwastraff cyn eu casglu.

5.2. Darperir pob cynhwysydd yn rhad ac am ddim i'r aelwyd, ar wahân i finiau brown ychwanegol y codir tâl amdanynt (gweler y polisi ffioedd a thaliadau ar wahân).

5.3. Rhaid cyflwyno eitemau gwastraff ac eitemau i'w hailgylchu yn y cynwysyddion a ddarperir gan y Cyngor i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w casglu.

5.4. Bydd yr holl gynwysyddion a ddarperir i aelwydydd at ddibenion casgliadau ailgylchu a gwastraff yn parhau yn eiddo i'r Cyngor a gellir eu hadalw neu newid yn ôl disgresiwn y Cyngor.

5.5. Mae preswylwyr yn gyfrifol am storio a glanhau cynwysyddion a ddarperir gan y Cyngor, a'u cadw'n ddiogel.

5.6. Dim ond ailgylchu a gwastraff a gynhyrchir o ddydd i ddydd gan aelwyd y dylid ei roi yn y cynwysyddion a ddarperir (h.y. ni ddylai gynnwys unrhyw eitemau ansafonol fel gwastraff mawr, gwastraff masnachol neu wastraff y mae modd ei ailgylchu).

5.7. Gall aelwydydd gael a chyflwyno sawl cynhwysydd ailgylchu er mwyn darparu ar gyfer swm y gwastraff i'w ailgylchu y maent yn ei gynhyrchu bob wythnos.

5.8. Dim ond un bin du ar olwynion fydd yn cael ei ddarparu i bob eiddo. Os bydd mwy nag un bin du ar olwynion gan unrhyw eiddo, byddwn yn mynd â'r biniau ychwanegol heb rybudd.

5.9. Os bydd aelwyd yn cynnwys 6 neu fwy o bobl sy'n byw yno'n barhaol, fe allent wneud cais am fin du 240 litr ar olwynion ar gyfer storio gwastraff na ellir ei ailgylchu, yn amodol ar wiriadau perthnasol fel y nodir gan y Cyngor. Bydd y gwasanaeth hwn yn destun adolygiad blynyddol a bydd y bin 240 litr ar olwynion yn cael ei newid am fin safonol 180 litr ar olwynion unwaith y bydd nifer y preswylwyr parhaol yn llai na 6.

5.10. Dim ond ar gyfer storio eitemau fel y rhagnodir gan y Cyngor y dylid defnyddio'r cynwysyddion a ddarperir gan y Cyngor. Gall methu gwneud hynny arwain at y Cyngor yn dod i nôl y cynhwysydd / cynwysyddion o'r aelwydydd.

5.11. Gellir gwneud unrhyw gais i ddarparu bin ar olwynion, cynhwysydd ailgylchu neu fagiau bwyd newydd (e.e. oherwydd difrod neu ar gyfer eiddo newydd ac ati) drwy gysylltu â'r Cyngor drwy'r Ganolfan Gyswllt ar 01352 701234 neu Ganolfannau Sir y Fflint yn Cysylltu. Dim ond biniau ar olwynion fydd yn cael eu danfon gan y Cyngor i eiddo'r preswylydd. Gellir casglu'r cynwysyddion ailgylchu eraill o rwydwaith o safleoedd casglu ar draws yr awdurdod. Gweler rhestr o'r safleoedd hyn ar wefan y Cyngor.

5.12. Lle bo aelwyd yn cynhyrchu symiau mawr o wastraff gardd, gall brynu hyd at ddau fin 140 litr yn ychwanegol ar gyfer storio'r deunydd hwn. Bydd y ffi ar gyfer biniau brown ychwanegol yn cael ei hadolygu'n flynyddol ac mae manylion y ffioedd presennol ar gael ar restr ffioedd a thaliadau'r Cyngor.

5.13. Rhaid sicrhau bod caeadau ar finiau ag olwynion a sachau hesian wedi'u cau'n iawn wrth gyflwyno ailgylchu a gwastraff i'w casglu i sicrhau bod eitemau wedi'u cynnwys yn ddiogel ac i ddiogelu'r amgylchedd ac iechyd a diogelwch y criwiau casglu wrth drin, codi neu symud y biniau ac i atal gollwng sbwriel ar y stryd. Ni ddylid gorlenwi cynwysyddion fel nad oes modd eu cau'n llawn, er mwyn sicrhau bod cyn lleied o wastraff â phosib yn cael ei ollwng.

5.14. Ni fydd unrhyw wastraff sy'n cael ei wasgu i mewn i fin ar olwynion, nad yw'n disgyn allan yn naturiol yn dilyn y broses wagio fecanyddol arferol ar y cerbydau casglu gwastraff, yn cael ei gymryd. Yn yr achosion hyn, bydd yn rhaid i breswylwyr dynnu'r deunyddiau oddi wrth ei gilydd eu hunain yn barod ar gyfer y casgliad nesaf sydd wedi'i drefnu.

5.15. Rhaid gosod biniau ar olwynion, cynwysyddion bwyd a chynwysyddion ailgylchu ar y dreif neu'r droedffordd o fewn un metr o'r cwrtil neu ffin yr eiddo ac mae'n rhaid iddynt fod yn weladwy ac yn hawdd i'r criwiau casglu allu mynd atynt heb fod angen agor giatiau ac ati. Lle nad yw hynny'n bosibl, dylid gosod y cynwysyddion ar y palmant neu ymyl y ffordd y tu allan i'r eiddo, mewn lle sy'n rhwystro cyn lleied â phosibl ar y llwybr i ddefnyddwyr y ffordd.

5.16. Rhaid i'r deiliad tŷ gasglu'r biniau ar olwynion a chynwysyddion ailgylchu wedi iddynt gael eu gwagio a'u rhoi yn ôl o fewn ffin eu heiddo ar y diwrnod casglu. Mae hyn yn cynnwys mannau casglu cymunedol. Ni ddylid storio cynwysyddion ar y briffordd gyhoeddus yn barhaol. Bydd criwiau casglu yn dychwelyd biniau a chynwysyddion i'r man y cawsant eu cyflwyno.

5.17. Pan fydd deiliaid tai yn symud i gyfeiriad newydd, gofynnir iddynt adael y biniau ar olwynion a'r cynwysyddion ailgylchu ar ôl er mwyn i'r preswylwyr newydd allu eu defnyddio. Yr unig eithriadau yw biniau gwastraff gardd ychwanegol (biniau brown ar olwynion) sydd wedi cael eu prynu gan y preswylydd gan y Cyngor.

6. Diwrnod ac Amser Casglu

6.1. Lle bynnag y bo'n weithredol bosibl, bydd casgliadau ailgylchu a biniau ar olwynion yn cael eu gwneud ar yr un diwrnod bob wythnos.

6.2. Rhaid cyflwyno biniau ar olwynion, cynwysyddion bwyd a bagiau a chynwysyddion ailgylchu yn barod i'w casglu erbyn 7am ar y diwrnod casglu a'u symud mor fuan â phosib wedi iddynt gael eu gwagio.

6.3. Gellir gosod cynhwysyddion yn eu man casglu y noson cyn y diwrnod casglu, fodd bynnag, ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am unrhyw anaf neu ddifrod i drydydd parti os bydd unrhyw beth yn digwydd oherwydd bod y cynhwysyddion wedi cael eu gadael ar y briffordd gyhoeddus, os na fyddant yn cael eu hachosi gan ei weithwyr, contractwyr neu asiantwyr.

6.4. Rydym yn cydnabod bod trigolion Sir y Fflint eisiau gwneud eu gorau i ddiogelu'r amgylchedd ond, yn achlysurol, gall gwyntoedd cryfion achosi problemau ar ddiwrnodau casglu. Yn ystod tywydd gwyntog, gall cynwysyddion ailgylchu a gwastraff y cartref, ynghyd â'u cynnwys, gael eu chwythu gan y gwynt a gall hyn arwain at broblemau sbwriel mewn rhai mannau. Yn ystod tywydd gwyntog, argymhellir nad yw cynwysyddion yn cael eu rhoi yn y man casglu y noson cynt a bod trigolion yn symud y cynwysyddion mor fuan â phosib ar ôl iddynt gael eu gwagio er mwyn eu hatal rhag cael eu chwythu gan y gwynt.

6.5. Efallai y bydd angen i'r Cyngor newid diwrnodau neu amseroedd casglu yn achlysurol e.e. dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd neu yn ystod tywydd garw.

6.6. Ar rai achlysuron, efallai y bydd y Cyngor yn gorfod atal casgliadau oherwydd amhariad i wasanaeth (e.e. tywydd garw, diffyg tanwydd, argyfwng cenedlaethol ac ati). Bydd y Cyngor yn gwneud pob ymdrech i leihau amhariad i drigolion yn ystod y cyfnodau hyn a bydd yn ceisio aildrefnu unrhyw gasgliadau a fethwyd cyn gynted ag y bydd achos yr amhariad yn dod i ben.

6.7. Bydd gwybodaeth am newidiadau o ran diwrnodau casglu yn yr achosion hyn ar gael ar wefan y Cyngor, ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a thrwy Ganolfan Gyswllt y Cyngor.

6.8. Lle nad yw'r Cyngor yn gallu casglu unrhyw gasgliadau gwastraff a fethwyd oherwydd amhariad ar wasanaeth, dylai deiliaid tai gadw eu gwastraff a'u deunyddiau i'w hailgylchu tan y diwrnod casglu nesaf sydd wedi'i drefnu pan fydd yr holl ddeunyddiau'n cael eu casglu.

6.9. Yn yr amgylchiadau hyn, gall preswylwyr ddefnyddio eu canolfan ailgylchu gwastraff cartref agosaf, ar ddiwrnodau penodol, er mwyn gwaredu symiau mawr o wastraff ac ailgylchu na ellir eu storio'n ddiogel gartref.

7. Paratoi a Chyflwyno Eitemau i'w Hailgylchu

7.1. Dylid rinsio rhai eitemau penodol a roddir yn y cynhwysydd ailgylchu (potiau plastig, poteli, tybiau, hambyrddau, jariau gwydr, poteli a thuniau a chaniau metel) a sicrhau eu bod yn rhydd o unrhyw ddeunydd a storiwyd ynddynt yn wreiddiol.

7.2. Rhaid i aelwydydd wahanu eu heitemau gwastraff i'r cynwysyddion priodol yn unol â'r cyngor a ddarperir gan y Cyngor. Os yw'r deiliad tŷ yn methu gwahanu'r deunyddiau gwastraff yn gywir i'r cynwysyddion penodol yn ôl yr angen, efallai na fydd y gwastraff yn cael ei gasglu ac ni fydd hyn yn cael ei gyfrif fel casgliad a fethwyd.

7.3. Yn yr achos hwn, bydd y criw casglu yn hysbysu'r preswylydd ynglŷn â pham nad yw'r cynwysyddion wedi cael eu gwagio drwy osod sticer/taflen gyda'r cynhwysydd. Yn dilyn digwyddiad o'r fath, bydd gofyn i'r deiliad tŷ roi eu heitemau yn y cynhwysydd cywir a fydd wedyn yn cael ei gasglu ar y diwrnod casglu nesaf.

8. Mannau Casglu Ffurfiol

8.1. Lle bo angen, bydd trefniadau penodol i'r safle yn cael eu gwneud ar gyfer casgliadau ailgylchu a gwastraff o fflatiau, eiddo teras neu eiddo gyda threfniadau mynediad cul neu anodd. Bydd y trefniadau casglu penodol hyn yn cael eu rhannu gyda'r deiliad tŷ gan y Cyngor.

8.2. Bydd biniau ar olwynion a chynwysyddion ailgylchu yn cael eu dychwelyd i'r man y cawsant eu gosod yn wreiddiol gan y criwiau casglu yn syth ar ôl iddynt eu gwagio gyda chaead y cynhwysydd / cynwysyddion ar gau.

8.3. Rhaid i'r deiliad tŷ gasglu eu biniau ar olwynion a chynwysyddion ailgylchu wedi iddynt gael eu gwagio a'u rhoi yn ôl o fewn ffin eu heiddo ar y diwrnod casglu. Ni ddylid gadael y cynhwysyddion yn y mannau casglu dynodedig yn barhaol.

8.4. Rhaid i bob aelwyd sy'n defnyddio man casglu a gytunwyd arno sicrhau bod rhif neu enw'r eiddo wedi'i nodi'n glir ar eu cynwysyddion er mwyn gallu cysylltu unrhyw gynwysyddion â'r eiddo.

9. Casgliadau ar Ffyrdd Preifat

9.1. Lle bo hynny'n bosibl, bydd cerbydau casglu'n teithio ar hyd ffyrdd preifat neu ffyrdd nad ydynt wedi'u mabwysiadu gan y Cyngor, gan alluogi preswylwyr i gyflwyno eu cynwysyddion gwastraff yn yr un lle ar eu heiddo ag y byddent pe bai hi'n ffordd y mae'r Cyngor wedi'i mabwysiadu.

9.2. Mae ffyrdd nad ydynt wedi'u mabwysiadu yn cyfeirio at ffyrdd nad oes angen eu cynnal yn ddigonol gan yr awdurdod priffyrdd o dan y Ddeddf Priffyrdd 1980. Mae dyletswydd gyfreithiol i gynnal y ffyrdd hyn o hyd, ond perchnogion y ffordd sy'n gyfrifol am wneud hynny, sydd fel arfer yn cynnwys perchnogion unrhyw eiddo sy'n wynebu'r ffordd honno.

9.3. Mae ffordd breifat yn ffordd sy'n perthyn i, ac yn cael ei chynnal a'i chadw gan unigolyn, sefydliad neu gwmni preifat, yn hytrach na'r Cyngor.

9.4. Os bernir unrhyw ffordd breifat yn anaddas i gerbydau deithio arni / neu os yw'n peri risg o ddifrod i'r cerbyd, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i atal casgliadau o'r eiddo. Yn yr achos hwn, bydd angen i drigolion fynd â'u cynhwysydd / cynwysyddion at y man lle mae'r ffordd breifat yn cwrdd â'r briffordd fabwysiedig.

9.5. Lle bo angen i aelwyd fynd â chynwysyddion at y briffordd fabwysiedig, bydd hyn yn cael ei drafod a'i gytuno'n ysgrifenedig ymlaen llaw gyda'r deiliad tŷ.

9.6. Pan nad oes modd gwneud casgliad ar ffordd breifat ar y diwrnod casglu, bydd yr aelwyd yn cael gwybod cyn gynted â phosibl, a bydd trefniant casglu arall yn cael ei drafod a'i gytuno.

9.7. Os yw perchennog y ffordd breifat neu'r ffordd heb ei mabwysiadu yn gwrthod gadael i gerbydau casglu ddefnyddio'r ffordd, bydd gofyn i drigolion fynd â'u cynhwysydd / cynwysyddion at fan lle mae'r ffordd breifat yn cwrdd â'r briffordd fabwysiedig.

9.8. Ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am gynnal a chadw unrhyw ffordd breifat neu ffordd heb ei mabwysiadu a ddefnyddir at ddibenion casgliadau ailgylchu neu wastraff ac ni fydd yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod neu aflonyddwch.

9.9. Bydd gan ddeiliaid tai na allant gyflwyno eu cynwysyddion yn y man casglu dynodedig neu ar ymyl palmant, ac sydd wedi gwneud cais a'u hystyried yn gymwys am gasgliad â chymorth, yr hawl i gael gwasanaeth casglu o'u heiddo.

9.10. Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu dull casglu amgen (e.e. cerbyd llai) neu ddiwrnod casglu gwahanol i'r gwasanaeth safonol a bydd angen cynnal asesiad risg annibynnol mewn perthynas â chasgliadau â chymorth ar ffyrdd preifat a ffyrdd heb eu mabwysiadu a threfnu gyda'r deiliad tŷ neu'r tirfeddiannwr perthnasol.

10. Cyflwyno Gwastraff Ychwanegol Na Ellir Ei Ailgylchu a Chamau Gorfodi

10.1. Ni fydd y Cyngor yn casglu unrhyw wastraff ychwanegol nad oes modd ei ailgylchu yn ogystal â'r swm a ganiateir o fewn y bin du ar olwynion.

10.2. Ystyrir y canlynol fel gwastraff ychwanegol:

- Gwastraff ychwanegol nad oes modd ei ailgylchu a roddir wrth ymyl neu y tu allan i'r bin ar olwynion.
- Gwastraff ychwanegol a roddir ar ben bin du ar olwynion, gyda'r caead naill ai ar agor neu ar gau.
- Mwy nag un bin du ar olwynion (ychwanegol) yn cael ei roi y tu allan i eiddo yn barod i'w gasglu.

10.3. Gall unrhyw eiddo a nodir fel eiddo sy'n cyflwyno gwastraff ychwanegol fod yn destun camau gorfodi. Mae'r Cyngor yn dilyn dull tri cham mewn perthynas â chyflwyno gwastraff ychwanegol, gan ganolbwyntio ar addysgu ac ymgysylltu ar y cam cyntaf, ac yna camau gorfodi ffurfiol os yw'r mater yn parhau. Y camau yw:

- **Cam un (Anffurfiol): Cyflwyno sticer a llythyr cynghorol**

Ar y cam hwn, bydd llythyr o gyngor yn cael ei gyflwyno, ynghyd â phamffledi gwybodaeth ar sut y gall yr aelwyd leihau gwastraff a beth y gellir ei ailgylchu, bydd sticer hefyd yn cael ei roi ar y bin i hysbysu'r preswylydd. Bydd y criw yn derbyn y gwastraff ychwanegol ar yr achlysur hwn.

► **Cam dau (Ffurfiol): Cyflwyno Rhybudd Adran 46**

Bydd rhybudd ffurfiol o'r bwriad i gymryd camau gorfodi os yw gwastraff ychwanegol yn parhau i gael ei gyflwyno yn cael ei gyflwyno i'r eiddo, gelwir hwn yn Rhybudd Adran 46. Ar y cam hwn, bydd swyddog gorfodi a thîm y strategaeth wastraff yn helpu i egluro gofynion y gwasanaeth casglu ac i gynnig cyngor pellach ar sut i gyflwyno gwastraff ac ailgylchu ar gyfer casglu. Caiff y cam hwn ei gofnodi a'i fonitro ar gyfer achosion yn y dyfodol.

Ar yr achlysur hwn, ni fydd y criw yn mynd â'r gwastraff ychwanegol, a chyfrifoldeb y deiliad tŷ fydd rhannu deunyddiau i'r cynwysyddion cywir a ddarperir yn barod ar gyfer y diwrnod casglu nesaf.

► **Cam tri (Ffurfiol): Rhybudd Cosb Benodedig / Erlyniad**

Bydd Rhybudd Cosb Benodedig yn cael ei gyflwyno os nad oes newid yn ymddygiad y deiliad tŷ a'i fod yn parhau i gyflwyno gwastraff ychwanegol yn dilyn cam un a dau. Bydd 28 diwrnod i dalu'r Rhybudd Cosb Benodedig, sy'n £75 fesul achos. Os nad yw'n cael ei dalu, gall y Cyngor symud ymlaen i erlyniad. Bydd unrhyw wastraff ychwanegol yn cael ei adael i'r deiliad tŷ ei rannu i'r cynwysyddion ailgylchu cywir cyn y dyddiad casglu nesaf.

Ni fydd y Cyngor yn dychwelyd i gasglu gwastraff ychwanegol sydd wedi'i nodi fel casgliad a gollwyd yn dilyn Cam 2 a 3. Bydd unrhyw finiau ychwanegol a gyflwynir wrth eiddo yn cael eu tynnu heb rybudd.

11. Casgliadau â Chymorth

11.1. Lle nad yw'r deiliad tŷ, oherwydd salwch neu anabledd, yn gallu cyflwyno eu bin ar olwynion neu gynwysyddion ailgylchu wrth y cwrtil neu ymyl palmant, ac ar yr amod nad oes unrhyw oedolyn arall nad ydynt yn anabl sy'n byw yn yr eiddo i gynorthwyo â chyflwyno'r cynwysyddion, gall y deiliad tŷ wneud cais ffurfiol i'r Cyngor am gasgliad â chymorth.

11.2. Mae hyn yn golygu y bydd criwiau'n casglu cynwysyddion ailgylchu a gwastraff o leoliad ar yr eiddo sydd wedi'i gytuno gyda'r deiliad tŷ ac yn eu dychwelyd ar ôl eu gwagio.

11.3. Os bydd casgliad â chymorth yn cael ei gymeradwyo, fe gytunir ar fan casglu addas gyda'r deiliad tŷ, lle gall ein criwiau gael mynediad ato, a bydd casgliadau'n digwydd o'r fan honno. Bydd asesiad risg yn cael ei gynnal cyn i unrhyw gasgliadau ddigwydd o'r man yma. Bydd y criw casglu yn dychwelyd pob cynhwysydd i'r man casglu a gytunwyd pan fyddant wedi cael eu gwagio.

11.4. Bydd Casgliadau â Chymorth yn cael eu cyfyngu i'r aelwydydd hynny sydd mewn gwir angen, yn dilyn cymeradwyaeth cais i'r Cyngor. Os nad oes angen y casgliad â chymorth mwyach, bydd gofyn i'r preswylydd hysbysu'r Ganolfan Gyswllt a bydd yr eiddo'n cael ei dynnu oddi ar y rhestr. Bydd y Cyngor hefyd yn adolygu achosion unigol bob 12 mis ac, os bernir nad oes angen y gwasanaeth mwyach, bydd y casgliad â chymorth yn dod i ben gyda rhybudd o 3 wythnos. Gall preswylwyr wneud cais am gasgliad â chymorth ar-lein.

11.5. Wrth ddarparu casgliad â chymorth, mae gofyniad i'r mynediad at y cynhwysydd/cynwysyddion fod o faint digonol fel nad yw'n peryglu'r criwiau casglu, ac i anifeiliaid anwes gael eu cadw ar dennyn

neu oddi wrth yr ardal yn ystod casgliadau. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu unrhyw drefniant casgliad â chymorth yn ôl o unrhyw eiddo y mae'r criwiau casglu yn credu sy'n anniogel iddynt gasglu ohonynt.

12. Casgliad Bin ar Olwynion a Chadi Bwyd a Fethwyd

12.1. Os yw bin ar olwynion (du neu frown) neu gadi gwastraff bwyd yn cael ei roi ar ymyl palmant, neu mewn man casglu a ddynodwyd gan y Cyngor, er mwyn ei gasglu ar y diwrnod ac amser casglu cywir h.y. cyn 7am ac nid yw'n cael ei gasglu gan y Cyngor erbyn 5pm ar y diwrnod casglu penodol, yna bydd yn cael ei gyfrif fel casgliad a fethwyd.

12.2. Pan roddir gwybod am gasgliad a fethwyd, bydd y Cyngor yn ymdrechu i ddychwelyd a chasglu'r bin ar olwynion neu'r cadi bwyd o fewn tri diwrnod gwaith yn dilyn cael gwybod am y casgliad a fethwyd.

12.3. Lle ceir prawf bod y deiliad tŷ wedi methu â rhoi'r bin allan i'w gasglu yn y man casglu fel y nodir yn y polisi hwn neu ar y diwrnod a'r amser dynodedig, ni fydd y Cyngor yn dychwelyd i'w gasglu a bydd angen i'r preswylydd roi'r cynhwysydd / cynhwysyddion allan i'w casglu ar y diwrnod casglu arferol nesaf neu wneud trefniadau i fynd â'r gwastraff i ganolfan ailgylchu gwastraff y cartref.

12.4. Gellir rhoi gwybod am gasgliadau a fethwyd drwy ffonio'r Ganolfan Gyswllt ar 01352 701234 neu drwy wefan y Cyngor ar ôl 5pm ar y diwrnod casglu.

13. Casgliad Ailgylchu a Fethwyd

13.1. Os nad yw cynhwysydd ailgylchu yn cael ei gasglu, gellir rhoi gwybod am hyn fel casgliad a fethwyd. Fodd bynnag, ni fydd y Cyngor yn dychwelyd ar gyfer casgliadau ailgylchu a fethwyd a disgwylir i'r deiliad tŷ roi'r gwastraff ailgylchu yn ôl allan i'w gasglu ar y diwrnod casglu nesaf sydd wedi'i drefnu.

13.2. Fel arall, os nad yw'r deiliad tŷ yn gallu aros tan y diwrnod casglu nesaf, gellir mynd â'r deunyddiau i'w hailgylchu i un o bum Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref y Cyngor.

14. Casgliad Gwastraff Clinigol/Meddygol y Cartref

14.1. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu ar gyfer gwastraff clinigol/meddygol (e.e. rhwymynnau, bagiau stoma, cathetrau, nodwyddau) gan breswylwyr ar gais.

14.2. Gellir gwneud ceisiadau am y gwasanaeth hwn drwy ffonio'r Ganolfan Gyswllt ar 01352 701234 neu drwy anfon e-bost at GwasanaethauStryd@siryfflint.gov.uk

14.3. Bydd y Cyngor yn darparu cynhwysydd / cynwysyddion addas i drigolion allu storio a chyflwyno eu gwastraff clinigol.

14.4. Bydd man casglu, diwrnod casglu, amlder casgliadau ac unrhyw gyfarwyddiadau penodol eraill ynglŷn â'r gwasanaeth hwn, yn cael eu cytuno rhwng y Cyngor a'r deiliad tŷ ymlaen llaw cyn gwneud unrhyw gasgliad.

14.5. Os yw casgliad wedi'i drefnu, ond nid oes gwastraff yn cael ei gyflwyno am dri chasgliad yn olynol, bydd y cartref yn cael ei dynnu o'r amserlen gasglu. Oni bai bod cytundeb ymlaen llaw, bydd aelwydydd yn cael eu tynnu o'r gwasanaeth casglu yn awtomatig a bydd angen iddynt ailymgeisio.

15. Casgliad Gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol y Cartref

15.1. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu ar gyfer gwastraff cynnyrch hylendid amsugnol (clytiau, padiau anymataliaeth ac ati) y cartref ar gais, a thrwy ffurflen gais benodol ar wefan y Cyngor.

15.2. Bydd y Cyngor yn darparu cynhwysydd a bagiau addas i drigolion allu storio eu gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol ar gyfer ei gasglu.

15.3. Bydd y gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol yn cael ei gasglu bob wythnos ar ddiwrnod dynodedig fel y nodir gan y Cyngor. Efallai na fydd y diwrnod hwn yn cyd-fynd â'r casgliadau ailgylchu a gwastraff safonol ar gyfer yr eiddo hwnnw.

15.4. Gellir cyflwyno'r cynhwysydd gwastraff cynnyrch hylendid amsugnol y cartref yn barod i'w gasglu ar ymyl palmant, neu o fewn ffin yr eiddo, lle gall y criw casglu ei weld a chael mynediad ato'n hawdd. Fe all hyn amrywio ar gyfer casgliadau â chymorth neu aelwydydd ar ffordd breifat.

15.5. Darperir gwasanaeth casglu i eiddo cofrestredig am gyfnod o ddwy flynedd o'r dyddiad cofrestru neu tan na fydd angen y casgliad mwyach (pa bynnag un sy'n digwydd gyntaf). Ar ôl dwy flynedd, bydd y gwasanaeth yn dod i ben i'r aelwydydd a bydd angen iddynt ailymgeisio drwy lenwi'r ffurflen ar-lein.

15.6. Pan na fydd angen y gwasanaeth mwyach, yr aelwyd fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Cyngor. Gellir gwneud hyn drwy Ganolfan Gyswllt y Gwasanaethau Stryd neu drwy anfon e-bost at: GwasanaethauStryd@siryfflint.gov.uk

15.7. Os nid oes gwastraff Cynnyrch Hylendid Amsugnol yn cael ei gyflwyno i'w gasglu ar fwy na thri achlysur, yna bydd yr eiddo'n cael ei dynnu oddi ar yr amserlen gasglu, oni chytunir yn wahanol.

16. Casgliad Gwastraff Swmpus y Cartref

16.1. Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff swmpus y cartref ar gyfer eitemau megis dodrefn ac eitemau trydanol gwyn (e.e. oergelloedd, peirannau golchi dillad, peiriannau sychu dillad). Mae'r rhestr lawn o'r eitemau wedi'i chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

16.2. Codir tâl am y gwasanaeth hwn ar gyfer 1 - 5 eitem. Gellir hefyd casglu eitemau ychwanegol (hyd at uchafswm o bum eitem ychwanegol) am dâl ychwanegol fesul eitem. Adolygir y taliadau drwy adolygiad blynyddol corfforaethol o ffioedd a thaliadau.

16.3. Gellir gwneud cais am gasgliad gwastraff swmpus drwy ffonio Canolfan Gyswllt y Gwasanaeth Stryd ar 01352 701234 a bydd apwyntiad casglu yn cael ei drefnu gyda'r deiliad tŷ.

16.4. Caiff oergelloedd ac oergelloedd-rhewgelloedd eu casglu yn rhad ac am ddim o bob cartref. Mae'n rhaid i'r eitemau hyn gael eu cyflwyno ar ymyl y palmant a'u gwagio cyn eu casglu.

16.5. Ni fydd gwastraff sy'n cael ei greu yn sgil gwneud gwelliannau i'ch cartref, yn cynnwys adnewyddu cegin/ystafell ymolchi, cypyrddau dillad wedi'u gosod ac unrhyw bridd a rwbel o waith tirlunio, yn cael ei gasglu fel rhan o'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus y cartref a dylai aelwydydd wneud y trefniadau priodol gyda'u contractwr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswydd gofal eu hunain ar gyfer gwaredu'r deunydd.

16.6. Nid yw gwastraff annomestig (gan fusnesau, elusennau a sefydliadau sector cyhoeddus) yn gymwys i gael ei gasglu drwy'r gwasanaeth hwn.

16.7. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod casglu unrhyw eitemau gwastraff a allai achosi niwed neu roi iechyd a diogelwch y staff casglu neu'r cyhoedd mewn perygl.

16.8. Mae'r gost ar gyfer y gwasanaeth hwn wedi'i nodi ar restr ffioedd a thaliadau'r Cyngor. Rhoddir cymhorthdal at gost y taliadau safonol i ddeiliaid tai sy'n derbyn cymhorthdal incwm, budd-dal diweithdra, lwfans byw i'r anabl, pensiwn y rhyfel, pensiwn y wladwriaeth neu gredydau pensiwn gwarantedig. Bydd angen darparu tystiolaeth o unrhyw fudd-dal wrth wneud cais.

17. Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref

17.1. Bydd y Cyngor yn darparu Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref wedi'u rheoli'n dda, sy'n hygyrch, yn ddiogel ac yn bodloni gofynion deiliaid tai yn Sir y Fflint sydd wedi cofrestru ar gofrestr Treth y Cyngor.

17.2. Mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gweithredu pum canolfan ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn i drigolion Sir y Fflint allu cyflwyno nifer fach o eitemau o'r cartref nad yw'r gwasanaeth casglu gwastraff y cartref yn gallu eu casglu, i'w hailddefnyddio, ailgylchu, compostio neu waredu. Derbynnir eitemau gwastraff gan safleoedd annomestig megis busnesau am gost drwy Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Maes Glas fel rhan o gynllun trwydded.

17.3. Gofynnir i drigolion drefnu a gwahanu eu heitemau ailgylchu a gwastraff cyn ymweld â safle Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref er mwyn gallu eu rhoi yn gyflym ac yn hwylus yn y cynhwysydd ailgylchu cywir. Mae hyn yn caniatáu ar gyfer teithio'n gyflym drwy'r safle, gan leihau ciwio a gorlenwi wrth ailgylchu cymaint â phosibl.

18.Lleoliadau

Tabl 3: Lleoliadau Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref:

Safle	Cyfeiriad
Bwcle	Globe Way, Bwcle CH7 3LY
Maes Glas	Rhif 2 Parc Busnes Maes Glas, Maes Glas, CH8 7GJ
Yr Wyddgrug	Ffordd Nercwys, Nercwys, Yr Wyddgrug. CH7 4ED
Sandycroft	Prince William Avenue, Glannau Dyfrdwy. CH5 2QZ
Oakenholt	Chester Road, Oakenholt. CH6 5SF

19.Dyddiau ac Oriau Gweithredol

Tabl 5: Oriau agor y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref

	Maes Glas	Bwcle	Yr Wyddgrug	Sandycroft	Oakenholt
Dydd Llun	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm
Dydd Mawrth	AR GAU	AR GAU	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm
Dydd Mercher	AR GAU	AR GAUD	AR GAU	AR GAU	AR GAU
Dydd Iau	9am – 5pm	9am – 5pm	AR GAU	AR GAU	AR GAU
Dydd Gwener	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm
Dydd Sadwrn	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm
Dydd Sul	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm	9am – 5pm

19.1. Mae'r holl safleoedd ar gau ddydd Nadolig, Dydd San Steffan a Dydd Calan.

19.2. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i gau'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref heb rybudd mewn ymateb i argyfwng neu os bernir eu bod yn anniogel (e.e. yn ystod tywydd garw). Yn yr achosion hyn, gwneir pob ymdrech i'w hailagor cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i wneud hynny.

19.3. Bydd gwybodaeth am unrhyw amhariad i wasanaeth yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol.

20. Deunyddiau a Dderbynnir

20.1. Mae rhestr o'r deunyddiau a dderbynnir ym mhob Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r rhain yn amrywio yn ôl safle ac yn gallu newid. Anogir aelwydydd i adolygu beth y gellir ei dderbyn ym mhob safle cyn ymweld. Efallai na dderbynnir nifer anarferol o fawr o'r eitemau a restrir uchod neu nifer fawr o'r un eitem(au).

21. Archebu a Chodi Tâl i Waredu

21.1. Mae'r Cyngor yn gweithredu system archebu a chodi tâl ar gyfer rhai eitemau nad ydynt yn wastraff cartref. Adolygir y tâl drwy adolygiad blynyddol corfforaethol o ffioedd a thaliadau.

21.2. Mae manylion ynglŷn â sut i archebu ar gyfer gwaredu'r eitemau hyn ar gael ar wefan.

21.3. Mae manylion ynglŷn â thaliadau ar gyfer eitemau nad ydynt yn wastraff cartref ar restr ffioedd a thaliadau'r Cyngor.

22. Gwastraff i'w Ailgylchu a Gwastraff Gweddilliol (Na Ellir Ei Ailgylchu)

22.1. Cyn ymweld â'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, anogir trigolion i wahanu eu heitemau yn ôl eitemau i'w hailgylchu a gwastraff er mwyn caniatáu ar gyfer eu gwaredu'n gyflym ac effeithlon ar y safle.

22.2. Ni chaniateir rhoi bagiau o wastraff cymysg yn y sgipiau gwastraff gweddilliol (cyffredinol) er mwyn sicrhau bod eitemau y gellir eu hailgylchu yn cael eu rhoi yn y cynhwysydd cywir. Os oes angen gwaredu gwastraff gweddilliol, mae'n rhaid ei gludo mewn cynhwysydd neu fag sy'n sicrhau bod y gwastraff yn weladwy i'w archwilio, er mwyn gallu gweld a thynnu eitemau i'w hailgylchu, os oes rhai, cyn gwaredu.

22.3. Ni fydd unrhyw wastraff a gyflwynir mewn sachau duon, er enghraifft, yn cael ei dderbyn a gofynnir i'r cwsmer agor y bagiau hyn cyn ei waredu. Os cyflwynir gwastraff i'w ailgylchu mewn sachau duon, bydd gofyn i'r cwsmer drefnu'r eitemau ymlaen llaw a'u rhoi yn y cynhwysydd ailgylchu priodol. Y nod yw lleihau faint o wastraff sy'n mynd i'w waredu ac er mwyn cyflawni hyn, bydd gofyn i gwsmeriaid ddidoli eu gwastraff ac ni chaniateir iddynt gael gwared ar wastraff y gellir ei ailgylchu.

23. Deunyddiau ac Eitemau Na Dderbynnir

23.1. Mae'r Cyngor yn ymdrechu i dderbyn ystod eang o eitemau ailgylchu a gwastraff a gynhyrchir gan aelwydydd; fodd bynnag, ni dderbynnir rhai eitemau oherwydd eu nodweddion unigol. Mae'r mathau hyn o wastraff yn cynnwys, ond heb fod wedi eu cyfyngu i:

Tabl 6: Mathau o wastraff na dderbynnir

Eitem	Gwybodaeth Ychwanegol
Chwyn gwenwynig a rhywogaethau ymledol (yn cynnwys ond heb eu cyfyngu i Lysiau'r Dial, Ffromlys Chwarennog a Llysiau'r Gingroen)	Gweler y canllawiau gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CMC) ar ddelio gyda chwyn ymledol. Cyfoeth Naturiol Cymru
Oergelloedd a rhewgelloedd masnachol	Bydd angen gwaredu oergelloedd/rhewgelloedd masnachol mawr drwy gwmni arbenigol.
Teiars masnachol	Bydd angen gwaredu teiars masnachol drwy gwmni arbenigol.
Petrol a diesel	Bydd angen i gwsmeriaid gysylltu ag arbenigwr gwaredu tanwydd lleol i gael gwared ar betrol neu ddiesel.
Bwledi a chetris	Gellir gwaredu bwledi a chetris drwy fynd â nhw i'r orsaf heddlu leol, i werthwr arfau tanio cofrestredig neu i ddeiliad trwydded arfau tanio awdurdodedig arall. Ni ddylai cwsmeriaid gael gwared ar fwledi a chetris eu hunain.
Tân gwyllt a fflachiadau morol	Ble bo'n bosibl, dylai cwsmeriaid ddilyn canllawiau'r gwneuthurwr ar gyfer gwaredu. Gall tân gwyllt sydd wedi llosgi'n unig gael eu socian yn llwyr mewn dŵr, eu rhoi mewn bag ac yn eich bin sbwriel. Fodd bynnag, mae'n anghyfreithlon gwaredu tân gwyllt neu fflachiadau heb losgi yn y dull hwn.
Deunyddiau ffrwydrol arall	Gweler y canllawiau uchod ar dân gwyllt a bwledi a chetris.
Hylifau fflamadwy	Bydd angen i gwsmeriaid gysylltu ag arbenigwr gwaredu i gael gwared ar hylifau fflamadwy.
Gwastraff clinigol (e.e. offer miniog, rhwymynnau neu fagiau colostomi)	Dylai cwsmeriaid siarad â'u meddygfa, fferyllfa neu nyrs gymunedol leol am gymorth gyda gwaredu gwastraff clinigol heintus. Mae'r Cyngor hefyd yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff clinigol ar gyfer gwastraff clinigol nad yw'n heintus - gweler y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Clinigol/ Meddygol y Cartref am ragor o fanylion.
Meddyginiaethau	Dylech waredu meddyginiaethau a chynnyrch cysylltiedig yn eich fferyllfa neu feddygfa leol.
Carcasau Anifeiliaid	Nid ydym yn derbyn carcasau anifeiliaid gwyllt neu anifeiliaid anwes mewn Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Dylai cwsmeriaid gysylltu â'u milfeddygfa agosaf am gyngor.
Gwastraff mawr neu anodd (e.e. cerbydau, trelars, siediau, carafanau, bonion coed mawr, cerrig mawr, injans)	Dylai cwsmeriaid gysylltu â chwmnïau gwaredu gwastraff arbenigol ar gyfer ffrydiau gwastraff mawr neu anodd, neu logi sgip gan gwmni achrededig, dibynadwy.

24.Polisi Trwydded Cerbydau

24.1. Mae'r Cyngor yn gweithredu polisi trwydded cerbydau ym mhob Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref. Gellir gweld y polisi yma:Trwydded Cerbyd a Threlar (siryfflint.co.uk)

25.Conditions of Site Use

25.1. Mae'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn gweithredu i ddarparu profiad dymunol a phroffesiynol i drigolion Sir y Fflint. Wrth ymweld â'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref, disgwyliwn i gwsmeriaid gadw at ein rheolau amodau defnyddio'r safle.

25.2. Mae'r Cyngor y cadw'r hawl i wrthod unrhyw un rhag dod i Ganolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref os yw'n amau ei fod wedi mynd yn groes i unrhyw un o'r amodau a amlygir yn y Polisi hwn

- Parchu staff y safle a chwsmeriaid eraill
- Cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a roddir gan staff y safle
- Dilyn unrhyw arwyddion, terfynau cyflymder, deddfwriaeth a chanllawiau iechyd a diogelwch
- Ni oddefir sarhad geiriol neu gamdriniaeth gorfforol
- Ni chaniateir i anifeiliaid ddod allan o gerbydau
- Gwaherddir defnyddio ffonau symudol wrth yrru a gwaredu gwastraff
- Rhaid i unigolion o dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn
- Rhaid didoli eitemau ymlaen llaw cyn ymweld â'r safle er mwyn gallu eu gwaredu'n gyflym ac effeithlon.
- Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i archwilio'r holl eitemau sy'n cael eu cludo i'r safle i sicrhau cydymffurfiaeth
- Rhaid rhoi pob eitem yn y cynhwysydd cywir i'w gwaredu er mwyn gwneud y mwyaf o ailddefnyddio ac ailgylchu.
- Gall cwsmeriaid ofyn am gymorth os oes angen
- Rhaid sicrhau bod modd archwilio unrhyw wastraff nad ellir ei ailgylchu a roddir yn y sgip gwastraff gweddilliol ac ni ddylid ei roi mewn sachau duon.

26.Monitro a Diogelwch Safle

26.1. Er diogelwch a lles staff y safle, cwsmeriaid ac isadeiledd mae gan bob Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref gamerâu teledu cylch caeëdig. Mae staff y safle hefyd yn cadw'r hawl i ddefnyddio camerâu a wisgir ar y corff er mwyn eu diogelwch eu hunain a diogelwch ein cwsmeriaid.

26.2. Gall y recordiadau ar y dyfeisiau hyn gael eu defnyddio wrth ymchwilio ac erlyn unrhyw unigolion nad ydynt yn cydymffurfio â rheolau'r safle neu'n cyflawni trosedd.